Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **Gwlad Thai** tudalen 1 o 2

Gwlad Thai, Green Net, Reis

Daearyddiaeth: Siam oedd yr hen enw ar Wlad Thai am ganrifoedd. Mae bron iawn yr un pellter o'r India a Tseina ac ar y ffin â Myanmar yn y gorllewin a'r gogledd, Laos yn y gogledd ddwyrain, Cambodia yn y dwyrain a Malaysia yn y de. Mae Gwlad Thai tua'r un faint â Ffrainc ac mae wedi'i rhannu'n 7 rhanbarth, mae'r un canol, lle mae'r brif ddinas, Bangkok, yn cael ei hadnabod fel 'Powlen Reis Gwlad Thai'. Mae gan Ddinas Bangkok boblogaeth o bron iawn 6 miliwn. Mae tirlun Gwlad Thai yn fynyddig iawn ac yng Ngogledd-ddwyrain y wlad mae afon fawr o'r enw Afon Mekong. Roedd gwareiddiad Oes Efydd hynaf y byd yn ffynnu yma 5,000 o flynyddoedd yn ôl.

Crefydd Bwdhaeth 95%, Muslim 3.8%, Cristnogaeth 0.5%, Hindŵaeth 0.1%, arall 0.6%

Gwers gyflym Thai:
sut i ddweud 'helo'.

Dywedwch "sawatdee kaa" i gyfarch merch.

Dywedwch "sawatdee khrab" i gyfarch dyn.

Wyddech chi?

Paffio Thai yw prif chwaraeon cenedlaethol Gwlad Thai.

Iaith

Thai yw'r brif iaith a siaradir yng Ngwlad Thai. Yr ieithoedd eraill a siaradir yw Tsieinëeg (Mandarin / Cantoneg), Lao, Malay a Mon-Khmer.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **Gwlad Thai** tudalen 2 o 2

Gwlad Thai, Green Net, Reis

Ystyr y Faner

Mae pum streipen llorweddol ar faner Gwlad Thai. Mae'r stribedi coch yn cynrychioli'r gwaed a gollwyd i gynnal annibyniaeth y wlad. Mae'r stribedi gwyn yn cynrychioli purdeb a dyma liw Bwdhaeth, prif grefydd Gwlad Thai. Glas yw'r lliw cenedlaethol, symbol o frenhiniaeth Gwlad Thai.

Poblogaeth: **67.38 million**

Dwysedd Poblogaeth: **132 o bobl y cilometr sgwâr**

Llythrennedd: **93.5%**

Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd: **95%**

Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 – 49 mlwydd oed): **1.4%**

Hinsawdd

Hinsawdd drofannol sydd gan Wlad Thai gyda monsŵns yn gyffredin iawn. Yn gyffredinol mae'n boeth iawn, yn enwedig rhwng mis Mawrth a mis Mai. Mae tymor y monsŵn yn rhedeg o fis Mehefin i fis Hydref pan fydd yr hinsawdd yn dal yn boeth a llaith gyda glaw trwm iawn. O fis Tachwedd i Chwefror mae'r tymor yn oerach gyda'r tymheredd isaf ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr

Hanes

2000 CC	300 CC	1000	1200	1529	1782	1833	1868
Gwareiddiad Oes Efydd yn yr hyn a ddaeth yn Wlad Thai heddiw.	Bwdhaeth yn dod i Siam.	Siam yn cael ei gormesu gan Cambodia ac yn dod yn rhan o Ymerodraeth Khmer	Siam yn dod yn annibynnol o Ymerodraeth Khmer	Rhyfel gyda Burma 1529 - 1569	Dechrau Brenhinllin Chakri o dan y Brenin Rama I	Siam – Rhyfel Fietnam	Teyrnasiad y Brenin Chulalongkorn

1932	1939	1964 - 67	1995	1997	2004	2007
Chwyldro. Brenhiniaeth absoliwt yn cael ei ddileu a sefydlu llywodraeth gyfansoddiadol	Siam yn newid ei henw i Wlad Thai (Gwlad o ryddid)	Gwlad Thai'n cael ei bygwth gan gomiwnyddiaeth yn Fietnam, Laos a Chambodia. Yn cael ei chefnogi gan yr Americanwyr	Llywodraeth yn cwympo	Argyfwng ariannol Asia	Miloedd o bobl yn cael eu lladd yn y Tsunami ar ddydd gŵyl San Steffan	Etholiadau cyffredinol yn nodi'r cam mawr cyntaf at ddychwelyd at reolaeth sifil

Ystadegau o www.worldbank.org